# Adroddiad Arholwyr Lefel 3

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Uned 330 ac Uned 331

Ionawr 2026

© WJEC CBAC Ltd.2026



## Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny. [1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgareddau addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

### Cefnogaeth bellach

| Dogfen | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.2026

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholi ar Porth CBAC.  Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig.  Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, yn yr 21ain ganrif yng Nghymru | 8 |
| Uned 331: Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru | 16 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 26 |


© WJEC CBAC Ltd.2026

## Crynodeb Gweithredol

## Uned 330

Roedd y gyfres hon o asesiadau Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant yn dangos perfformiad cryf ar y cyfan gan yr ymgeiswyr ar draws yr Unedau; roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o'r cysyniadau damcaniaethol craidd a'r gallu i gymhwyso gwybodaeth mewn senarios ymarferol. Roedd y papurau arholiad yn hygyrch, gan gyfateb yn dda â'r fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol, a chafwyd ymatebion hyderus gan ymgeiswyr i'r fformatau ar-lein a phapur.

### Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

Ar draws yr Unedau, dangosodd yr ymgeiswyr gryfderau penodol mewn meysydd allweddol fel datblygiad cyfannol, amrywiaeth a chynhwysiant, damcaniaeth ymlyniad, arwain ymddygiad, ymarfer myfyriol, a gwybodaeth am fframweithiau polisi Cymru gan gynnwys *Dechrau'n Deg* a *Cymru – Gwlad lle mae Cyfle i Chwarae*. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion wedi'u strwythuro'n dda, a llawer o'r ymgeiswyr yn dangos aeddfedrwydd yn eu mynegiant ysgrifenedig, yn defnyddio geiriau gorchymyn yn effeithiol, ac yn deall yn iawn sut mae damcaniaeth yn tanategu ymarfer.

### Perfformiad Cyffredinol yr Ymgeiswyr a Thueddiadau

Un duedd amlwg ar draws y gyfres oedd gwell gallu i integreiddio profiadau o leoliadau go iawn i ategu esboniadau, yn enwedig wrth ateb cwestiynau am ymddygiad, anghenion dysgu ychwanegol, ac ymarfer amlasiantaethol. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn dangos sgiliau llythrennedd cryf ac yn gallu cyfleu eu syniadau'n glir ac yn gydlynol. Roedd cwestiynau tariff uchel yn aml yn cael eu hateb yn ddigon manwl, ac roedd ymgeiswyr yn defnyddio dalenni ychwanegol pan fyddai angen, gan reoli eu hamser yn dda.

### Uchafbwyntiau a Phroblemau o ran Perfformiad

Fodd bynnag, roedd nifer o feysydd i'w gwella i'w gweld dro ar ôl tro. Roedd nifer bach o ymgeiswyr yn dibynnu ar bwyntiau bwled yn y cwestiynau lle roedd angen ymatebion estynedig, gan gyfyngu ar eu marciau. Roedd rhai ymgeiswyr yn dangos ansicrwydd ynglŷn â damcaniaethau fyddai wedi cael llai o sylw, fel damcaniaeth 'ymddygiad dewis' William Glasser, ac roedd hyn wedi effeithio ar berfformiad mewn cwestiynau cysylltiedig â dwy ran. Un broblem gyffredin oedd disgrifio gwasanaethau neu brosesau (e.e. sgrinio iechyd), heb gyfeirio'n llawn at yr elfennau gwerthusol neu fyfyriol y byddai eu hangen i gyrraedd y bandiau marciau uchaf.

### Themâu Cyffredin ar draws Llythrennedd, Gweinyddiaeth a Sgiliau

Hefyd, roedd llawer o’r ymatebion yn crwydro oddi wrth ffocws penodol y cwestiwn, yn enwedig pan fyddai ymgeiswyr yn ysgrifennu mewn modd gyffredinol am themâu fel chwarae neu ymddygiad yn hytrach nag ymdrin â gofynion penodol y cwestiwn. Dylai canolfannau barhau i atgyfnerthu pwysigrwydd darllen cwestiynau'n ofalus, deall geiriau gorchymyn a strwythuro ymatebion er mwyn bodloni gofynion AA2 ac AA3 yn llawn. Bydd sicrhau gwybodaeth ddamcaniaethol gadarn—y tu hwnt i'r damcaniaethwyr sy'n cael y mwyaf o sylw wrth addysgu—hefyd yn helpu i wella perfformiad ar draws y gyfres.
Roedd prosesau gweinyddu ac asesu'n ddidrafferth ar y cyfan; ychydig iawn o broblemau a nodwyd. Roedd y ffaith bod fformatau ar-lein a phrint ar gael, yn Gymraeg a Saesneg, yn cefnogi cyfranogiad eang. Roedd lefelau llythrennedd yn gryf ar y cyfan, ond byddai lleiafrif o'r ymgeiswyr yn elwa o fwy o gefnogaeth â sgiliau ysgrifennu estynedig a mynegi eu hunain yn eglur.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Adnoddau a Argymhellir i Baratoi am y Dyfodol**

- Anogir canolfannau i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn llawn, gan gynnwys cyn-bapurau, ymatebion enghreifftiol, cynlluniau marcio, a'r canllawiau ym Manylebau'r Unedau
- Bydd ymarfer cwestiynau arddull arholiad yn rheolaidd, yn enwedig rhai lle mae angen trafod, gwerthuso a myfyrio, yn cryfhau perfformiad AA3.
- Bydd ymgorffori cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso damcaniaeth i ymarfer go iawn neu efelychiad hefyd yn cefnogi dealltwriaeth ddyfnach a chanlyniadau cryfach mewn arholiadau.

**Uned 331**

Ar gyfer yr Ymchwiliad Estynedig, mae angen i ymgeiswyr gynnal ymchwil annibynnol i fater cyfoes ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru, gan ddewis naill ai Testun 1 (ffactorau cyfredol a chyfoes sy'n effeithio ar iechyd a llesiant plant) neu Destun 2 (gwerth defnyddio gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb i gefnogi datblygiad cyfannol). Rhaid i ymgeiswyr gymhwyso damcaniaeth, deddfwriaeth a dealltwriaeth seiliedig ar ymarfer gan ddangos sgiliau ymchwilio, gwerthuso a myfyrio ar draws chwech tasg strwythuredig.

**Crynodeb o'r Prif Bwyntiau**

Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddewis Testun 1 ac roeddent yn gallu archwilio amrywiaeth eang o ffactorau cyfoes—fel strwythur teuluol, caledi ariannol, iechyd meddwl, cyfryngau cymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol, hunanddelwedd a gofalwyr ifanc—a chysylltu'r rhain â datblygiad cyfannol. Roedd nifer llai wedi dewis Testun 2 ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r Cwricwlwm i Gymru a dysgu drwy brofiadau yn seiliedig ar chwarae. Roedd ymatebion lefel uwch yn gyson wrth gysylltu cysyniadau damcaniaethol â phrofiad proffesiynol ac yn dangos dealltwriaeth glir o ofynion y dasg, gan gynnwys ymchwil seiliedig ar dystiolaeth ac ymarfer myfyriol.

**Perfformiad Cyffredinol yr Ymgeiswyr a Thueddiadau**

Roedd y perfformiad cyffredinol yn gryf, a llawer o'r ymgeiswyr yn cynhyrchu ymchwiliadau cyflawn wedi'u hategu gan safbwyntiau personol ac enghreifftiau o'r gweithle. Mae'r tueddiadau'n dangos gwell gallu i gymhwyso arferion o'r byd go iawn at safbwyntiau damcaniaethol a chynyddu hyder wrth drafod hawliau plant, gwerthoedd, a'r egwyddorion sy'n sail i ymarfer proffesiynol. Fodd bynnag, gwelwyd amrywiadau amlwg o ran dyfnder ymchwil, cysondeb cyfeirnodi, a'r gallu i gynnal trafodaeth werthusol. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi cynhyrchu gwaith wedi'i siapio gan y ganolfan yn hytrach nag ymchwiliadau cwbl unigol, gan gyfyngu ar gyfleoedd i wneud dewisiadau personol a myfyrio go iawn.

**Uchafbwyntiau a Phroblemau o ran Perfformiad**

Roedd ymgeiswyr yn perfformio'n dda wrth gysylltu gwerthoedd ac egwyddorion—fel cyfathrebu, gwaith tîm, cynhwysiant a hawliau plant—ag enghreifftiau ymarferol. Roedd ymatebion cryf hefyd yn dangos sut mae deddfwriaeth a fframweithiau yng Nghymru yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gynllunio a'r ddarpariaeth mewn lleoliadau. Roedd angen myfyrio ar gyfer tasg 6, a chafwyd sgorau uchel yn aml. Dyma rai o'r problemau a welwyd: cyfeirnodi anghyflawn, diffyg eglurder wrth gyfiawnhau ffynonellau, dibynnu ar ddyfyniadau yn hytrach na thrafodaeth, diffyg datblygiad safbwyntiau, ac mewn rhai achosion, gorddefnyddio pwyntiau bwled neu dablau, gan gyfyngu ar ddyfnder. Roedd rhai ymgeiswyr wedi ysgrifennu gormod o eiriau neu heb ddiffinio ffiniau tasgau'n glir, gan arwain at adrannau nad oedd modd eu marcio.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Themâu Cyffredin ar draws Llythrennedd, Gweinyddiaeth a Sgiliau**

Roedd y themâu gweinyddol allweddol yn cynnwys rhestri cyfeirnodi coll, absenoldeb o gyfeirnodi Harvard cyson, labelu tasgau'n aneglur, a dalenni dyrannu amser anghyflawn. O safbwynt llythrennedd, roedd llawer o'r ymgeiswyr yn ysgrifennu'n glir ac yn fynegiannol, ond roedd eraill wedi rhoi datganiadau byr yn hytrach na pharagraffau estynedig. Ar y themâu sy'n ymwneud â sgiliau, gwelwyd myfyrio da, ond tystiolaeth wannach o ran confensiynau ymchwil academaidd ac ysgrifennu gwerthusol. Nodwyd amrywioldeb hefyd o ran deall deddfwriaeth a fframweithiau sy'n benodol i Gymru.

**Meysydd Allweddol i'w Gwella**

- Gwell sgiliau cyfeirnodi, gan gynnwys cyfiawnhau ffynonellau'n glir.
- Ysgrifennu gwerthusol cryfach, yn enwedig ar gyfer Tasgau 3, 4 a 5.
- Sicrhau bod pob trafodaeth yn canolbwyntio drwyddi draw ar y testun dewisol a'r meysydd ffocws dan sylw.
- Strwythuro tasgau'n glir gan labelu'n briodol ac ysgrifennu'n myfyriol yn y person cyntaf yn gyson.
- Osgoi defnyddio testun wedi'i gopïo, pwyntiau bwled, tablau a phrofformâu.
- Dewis nifer llai o feysydd ffocws mwy hylaw i'w harchwilio'n ddyfnach.

**Adnoddau a Argymhellir i Baratoi am y Dyfodol**

Dylai canolfannau alw ar y canlynol:
- Manylebau unedau a deunyddiau asesu enghreifftiol.
- Ymchwiliadau enghreifftiol a chanllawiau marcio.
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm i Gymru, llesiant plant, a fframweithiau statudol.
- Adnoddau sgiliau ymchwil academaidd, gan gynnwys canllawiau i gyfeirnodi Harvard a gwerthuso ffynonellau.
- Modelau ymarfer myfyriol (e.e., Gibbs, Kolb) i gryfhau ymatebion gwerthusol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI**

**Lefel 3**

**Ionawr 2026**

**UNED 330: EGWYDDORION A DAMCANIAETHAU SY'N DYLANWADU AR OFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT YN YR 21$^{AIN}$ GANRIF YNG NGHYMRU**

## Trosolwg o'r Uned

Yn yr arholiad Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori, bydd y cwestiynau'n mynd i'r afael ag un neu fwy o amcanion asesu: o AA1, AA2 neu AA3. Roedd y mathau o gwestiynau yn darparu amrediad o gwestiynau tariff is a thariff uwch ar draws cynnwys manyleb uned 300. Mae'r cwestiynau'n profi gallu'r ymgeiswyr i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o egwyddorion a damcaniaethau testunau 1-5. Mae'r mathau o gwestiynau yn y papur hwn yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y papur Deunyddiau Asesu Enghreifftiol. Nid oedd unrhyw gwestiynau annisgwyl, ac ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda i'r cwestiynau drwy'r papur i gyd.

Bwriad yr arholiad uned 330 yw profi gwybodaeth am ddysgu a dealltwriaeth ddamcaniaethol a darparu cyfle i fynegi sgiliau a phrofiadau ymarferol ymgeiswyr wrth ymateb i'r cwestiynau sy’n ffocysu ar destun. Cafodd y papurau eu cwblhau ar-lein ac ar fersiynau papur ysgrifenedig, a chafodd y ddau fersiwn eu cynnig a'u defnyddio yn Gymraeg a Saesneg. Cafwyd ymatebion clir a strwythuredig i'r mwyafrif o'r cwestiynau, a dealltwriaeth dda o'r geiriau gorchymyn. Roedd rhai ymatebion wedi'u hysgrifennu gan ddefnyddio pwyntiau bwled lle roedd angen ymateb manylach. Ar y cyfan, rhoddwyd ymatebion manwl â lefel gadarn o wybodaeth a dealltwriaeth, ac roedd strwythur yr ymatebion wedi'u hysgrifennu'n dda ac yn cyfleu pwynt yr ymgeisydd mewn modd clir. Atebwyd y cwestiynau i gyd yn y mwyafrif helaeth o'r papurau ar-lein a'r fersiynau papur, ac roedd arddull y cwestiynau'n aml yn hygyrch heb gamddealltwriaeth nac unrhyw gysondeb o ran diffyg gwybodaeth. Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi cwblhau'r papur ag ymatebion manwl, gan amseru'r papur yn dda. Roedd yr ymatebion a roddwyd ar y cyfan yn glir ac roedd rhai ymgeiswyr wedi defnyddio'r dalenni ychwanegol oedd ar gael i ehangu ymhellach ar eu hymatebion pan fyddai angen. Ar y cyfan, rhoddwyd cynnig ar bob cwestiwn a ofynnwyd wrth i ymgeiswyr weithio drwy'r papur ar-lein a'r papur ysgrifenedig.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**1. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau teuluol o fewn y cartref yn gallu bod o fantais i ddatblygiad plentyn.**

**Amlinellwch beth yw manteision gweithgareddau yn amgylchedd y cartref i ddatblygiad cyfannol plentyn.**

Roedd y cwestiwn 6-marc hwn yn gyflwyniad rhagorol i'r papur cyfres hwn ar uned 330. Roedd ymgeiswyr yn gallu ateb y cwestiwn testun 1 am gefnogi datblygiad cyfannol o 0-19 oed. Roedd yr ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth eglur o feysydd datblygiad cyfannol a manteision gweithgareddau i gefnogi datblygiad. Roedd llawer hefyd wedi archwilio mwy o bwyslais ar rôl y rhieni/gofalwyr ac wedi gallu cysylltu manteision ymlyniadau cymdeithasol ac emosiynol â phrofiadau dysgu cadarnhaol. Gwelwyd cyfeiriadau hefyd at fanteision cefnogi iechyd meddwl plant a darparu cefnogaeth emosiynol yn amgylchedd y cartref, yn aml gan ganolbwyntio ar blant ar adegau pan maen nhw'n agored i niwed, plant sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a hefyd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd y cwestiwn hwn yn galluogi'r ymgeiswyr i ddatblygu amlinelliad o fanteision gweithgareddau yn amgylchedd y cartref i ddatblygiad cyfannol plentyn gan gynnwys archwilio cyfleoedd am ddatblygiad cymdeithasol ac iaith gydag aelodau'r teulu, y rhyddid i ddysgu gartref, cyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored yn yr ardd, datblygu sgiliau datrys problemau, a chydweithio a gwydnwch drwy chwarae gemau fel gemau bwrdd gydag aelodau'r teulu. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn amlinellu arwyddocâd dysgu yn niogelwch a rhyddid y cartref gyda chefnogaeth teulu/gofalwyr, gan dynnu sylw at ddatblygu amrywiaeth o sgiliau cyfannol a gwneud cynnydd drwy amrywiaeth o gerrig milltir; er enghraifft, dysgu rhannu a dysgu am golli mewn gêm a fydd yn cefnogi eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol mewn perthnasoedd eraill. Ar y cyfan, roedd hwn yn gwestiwn a enillodd farciau uchel a chafodd ymgeiswyr ddechrau da i'r arholiad.

**2. Mae dulliau cyfredol mewn lleoliadau'n ceisio cydnabod (*recognise*) gwahaniaethau diwylliannol.**

**Trafodwch werth (*value*) cydnabod a dathlu amrywiaeth (*diversity*) mewn ymarfer.**

Roedd ymgeiswyr yn gallu rhoi ymateb clir wedi'i ysgrifennu'n dda i'r cwestiwn 6 marc hwn gan ateb mewn modd aeddfed a chynhwysol. Yn aml, roedd ymgeiswyr yn gallu darparu trafodaethau gwerthfawr am ffyrdd ymarferol o gydnabod a dathlu amrywiaeth. Roedd llawer o ymgeiswyr yn sôn am bwysigrwydd lleihau stereoteipiau a thybiaethau negyddol am grefydd a thraddodiadau diwylliannol, ac yn pwysleisio pwysigrwydd annog trafodaethau agored a darparu delweddau ac adnoddau cadarnhaol i gefnogi ymwybyddiaeth plant o wahaniaethau mewn diwylliant. Roedd ymgeiswyr yn trafod gwerth dathlu amryw o ddigwyddiadau arwyddocaol crefyddol neu ddiwylliannol, addysgu am dosturi ac ymwybyddiaeth o werthfawrogi pobl eraill, a phwysigrwydd cael profiad o amrywiaeth i gefnogi cydraddoldeb mewn ysgolion, lleoliadau addysg a chymdeithas yn gyffredinol. Roedd llawer yn sôn am bwysigrwydd cydnabod gwahaniaethau diwylliannol fel newid cadarnhaol gydol oes ac i greu cymdeithas gynhwysol a chyfartal. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn tynnu sylw at werth tegwch mewn cymdeithas i bobl ag anableddau ac anghenion dysgu, a sut mae angen i adnoddau ac amgylcheddau hygyrch adlewyrchu'r anghenion amrywiol hyn. Roedd llawer yn trafod cefnogi'r ddealltwriaeth o sut mae pawb yn wahanol i gynyddu tosturi a chefnogaeth.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Ar y cyfan, cafwyd marciau uchel am y cwestiwn hwn sy'n adlewyrchu dealltwriaeth gadarn o ddathlu amrywiaeth, ag ystod eang o enghreifftiau i adlewyrchu eu profiadau yn eu lleoliadau gwaith.

**3. Fe wnaeth Mary Ainsworth astudio damcaniaeth ymlyniad (*attachment*) ac archwilio cysyniad ffigyrau ymlyniad yn yr arbrawf 'sefyllfa ryfedd'.**

**(a) Crynhowch (*summarise*) yr arbrawf 'sefyllfa ryfedd'.**

Roedd y cwestiwn hwn am ddamcaniaeth ymlyniad yn gofyn i'r ymgeiswyr roi crynodeb o arbrawf 'sefyllfa ryfedd' Mary Ainsworth. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiad manwl o gamau'r arbrawf hwn wrth astudio cysyniad ymlyniad, a rôl y prif ofalwr o ran ymateb emosiynol plentyn i achlysur o arsylwi ar ymddygiad. Roedd ymgeiswyr yn aml yn rhoi disgrifiad cam wrth gam o'r broses a'r camau dan sylw wrth i'r rhiant/gofalwr fynd i mewn ac allan o'r ystafell, ac wrth i'r dieithryn fynd i mewn ac allan o'r ystafell, tra bod y plentyn yn aros yno. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn myfyrio ar eu gwybodaeth am y plentyn mewn ystafell anghyfarwydd. Roedd llawer yn nodi bod oedolion yn arsylwi ar ymddygiad y plentyn drwy ddrych unffordd ac yn sôn am grŵp oedran nodweddiadol y plant yn yr arbrawf hwn. Llwyddodd rhai ymgeiswyr i gyrraedd bandiau marciau uchaf y cwestiwn 5 marc hwn, drwy roi crynodeb o'r mathau o ymlyniad roedd Mary Ainsworth wedi nodi fel nodweddion ymlyniad yn rhan o'i harbrawf. Roedd hyn yn dangos dealltwriaeth fanwl o'r ddamcaniaeth ymlyniad, ac yn aml yn mynd ymhellach i archwilio cysyniad ymlyniad yn yr arbrawf 'sefyllfa ryfedd'.

**(b) Trafodwch werth yr astudiaeth 'sefyllfa ryfedd' i ddeall ymlyniad plant.**

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu dilyn ymlaen o C3(a) i mewn i C3(b) â mwy o fanylder a myfyrio ynghylch mynegi canfyddiadau Mary Ainsworth o'r astudiaeth 'sefyllfa ryfedd' i ddeall ymlyniad plentyn. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu rhoi dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd sylfaen ddiogel i ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol cadarnhaol plentyn, ac o arwyddocâd oedolion yn cefnogi plant ac yn eu harwain mewn modd cyson a rheolaidd yn eu profiadau dyddiol mewn lleoliad blynyddoedd cynnar neu amgylchedd ysgol. Yn y cwestiwn 6 marc hwn, roedd ymgeiswyr yn trafod pwysigrwydd annog cyfathrebu, perthnasoedd cadarnhaol, a datblygu ymddiriedaeth a chysur pan fo angen. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn trafod pwysigrwydd gwybod anghenion unigol plant a'u cefnogi nhw drwy newidiadau a chyfnodau pontio neu brofiadau newydd; ac yn aml yn tynnu sylw at y posibilrwydd y byddent yn mynd yn emosiynol wrth deimlo'n ansicr neu'n anghyfforddus â newid. Roedd dealltwriaeth gadarn ynghylch y gwerth o annog a chefnogi hunan-barch plant a'u llesiant emosiynol. Roedd ymgeiswyr yn gallu ennill marciau mewn bandiau uchel drwy roi trafodaeth dda am werth yr astudiaeth 'sefyllfa ryfedd' i ddeall ymlyniad plentyn.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**4. Mae gweithredoedd, agweddau a phrofiadau'n gallu effeithio ar ymddygiad plentyn.**

**(a) Ystyriwch sut mae dulliau rhianta (*parenting styles*) gwahanol yn gallu effeithio ar ymddygiad plentyn.**

Roedd y cwestiwn 8-marc hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr drafod sut mae amryw o weithredoedd, agweddau a phrofiadau plant yn effeithio ar eu hymddygiad ac ystyried sut mae dulliau rhianta gwahanol yn gallu effeithio ar ymddygiad plentyn. Roedd ymgeiswyr yn aml yn wybodus am y dulliau rhianta, gan ddefnyddio terminoleg fel awdurdodaidd, caniataol ac anghyfrannog neu dermau ag ystyr neu natur debyg i fynegi eu dealltwriaeth o'r dull a'r disgwyliadau lle gall gwahanol ddulliau effeithio ar blant a'u hymddygiad. Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr yn gallu rhoi trafodaethau cyflawn am effeithiau cadarnhaol dulliau rhianta wedi'u seilio ar ffiniau clir, cefnogi hunan-barch plentyn, a dangos cysondeb a thegwch. Roedd yr ymgeiswyr yn aml yn rhoi ymatebion clir am agweddau negyddol ar rianta lle byddai plant yn cael eu drysu gan ymatebion oedolion, yn byw mewn amgylcheddau camdriniol neu'n cael eu trin yn annheg â disgwyliadau aneglur. Roedd ymgeiswyr yn gallu ennill ystod eang o farciau am y cwestiwn hwn ac ar y cyfan yn ymateb yn dda iawn. Roedd y mwyafrif yn rhoi ymatebion cyflawn oedd yn bodloni gofynion y cwestiwn i ystyried gwahanol ddulliau rhianta a'r effeithiau ar ymddygiad plant. Roedd llawer yn gallu cyfeirio'n eglur at y dulliau rhianta, ac yn aml yn ennill marciau yn y bandiau uchaf.

**(b) Archwiliwch sut mae gweithwyr gofal plant yn gallu cefnogi ymddygiad cadarnhaol yn y lleoliad gofal plant.**

Roedd ymgeiswyr yn gallu dilyn eu hymatebion i C4(a) o fewn C4(a) i roi gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach ynglŷn ag ymddygiad, ac archwilio rôl gweithwyr gofal plant a sut mae eu gweithredoedd, eu hagweddau a'u hymddygiadau'n gallu effeithio ar ymddygiad plant. I ateb y cwestiwn 10 marc hwn, roedd angen i'r ymgeiswyr fynegi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut gall gweithwyr gofal plant gefnogi ymddygiad cadarnhaol yn y lleoliad gofal plant. Roedd ymgeiswyr yn gallu myfyrio ar bwysigrwydd modelu rôl cadarnhaol a dangos nodweddion ymddygiad da i blant, fel; caredigrwydd, rhannu, cyfathrebu cadarnhaol a defnyddio moesau; hefyd roedd pwysigrwydd disgwyliadau clir yn amlwg mewn llawer o'r ymatebion. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu archwilio effeithiau negyddol ymddygiadau oedolion o ran dylanwadu ar blant, ac roedd llawer yn sôn am ddamcaniaethwyr e.e. damcaniaeth dysgu cymdeithasol Albert Bandura i archwilio effaith plant yn copïo ymddygiad a sut byddai angen i weithwyr gofal plant fod yn ddylanwad cadarnhaol i gefnogi ymddygiadau cadarnhaol plant. Ar y cyfan, dangoswyd dealltwriaeth dda iawn ac roedd lefelau dyfnder a thrafodaeth yn yr ymatebion yn amrywio.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**5. Mae damcaniaethau am ddatblygiad ymddygiad yn gallu cael eu defnyddio i gefnogi ymddygiad plant.**

**(a) Amlinellwch ddamcaniaeth 'ymddygiad dewis' (*'choice behaviour'*) William Glasser.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r dysgwyr fynegi dealltwriaeth o ddamcaniaeth 'ymddygiad dewis' William Glasser. Roedd gofyn i'r ymgeiswyr roi amlinelliad i'r cwestiwn 5 marc hwn. Roedd llawer o'r ymatebion yn dweud bod damcaniaeth Glasser yn annog plant i ddewis eu hymddygiad eu hunain, a bod angen i blant wneud penderfyniadau i reoli eu hymddygiad eu hunain, gan ddweud bod dewisiadau da'n cynhyrchu ymddygiad da, a dewisiadau gwael yn cynhyrchu ymddygiad gwael. Roedd llawer o ymgeiswyr yn amlwg yn wybodus ac yn deall damcaniaeth Glasser yn iawn, sy'n ymwneud ag ysfa'r plentyn am rym, hwyl a rhyddid, goroesi, cariad a pherthyn fel angen sylfaenol. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn gwybod damcaniaeth Glasser ac roedd y rhain yn gadael y cwestiwn heb ei ateb neu'n rhoi ymatebion byr iawn. Ar y cyfan, roedd hwn yn gwestiwn a enillodd farciau uchel a chafodd llawer o ymgeiswyr farciau mewn bandiau uchel am roi amlinelliad da o ddamcaniaeth William Glasser.

**(b) Disgrifiwch werth gweithwyr gofal plant yn defnyddio damcaniaeth Glasser i gefnogi ymddygiad cadarnhaol.**

Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr yn gallu ymateb i'r cwestiwn hwn fel parhad o C5(a), a llawer yn rhoi disgrifiad da o werth gweithwyr gofal plant yn defnyddio damcaniaeth Glasser i gefnogi ymddygiad cadarnhaol. Roedd ymgeiswyr yn gallu disgrifio sut dylai oedolion gefnogi plant i wneud penderfyniadau da yn eu hymddygiad a rhoi canlyniadau i ymddygiad gwael. Gwelwyd dealltwriaeth dda o osod rheolau a ffiniau, a hefyd o gefnogi plant i ddeall disgwyliadau. Roedd llawer yn tynnu sylw at bwysigrwydd diwallu anghenion plant, fel hwyl, rhyddid a pherthyn a chroesawu amgylchedd croesawgar i bawb. Roedd llawer o'r ymatebion yn cyrraedd y band marciau uchaf sef 6 marc, er nad oedd rhai ymgeiswyr yn siŵr am ddamcaniaeth Glasser oedd yn aml yn cael ei adlewyrchu drwy ddangos diffyg dealltwriaeth yn C5(a). Roedd rhai o'r ymatebion a roddwyd weithiau'n crwydro i sôn am ddamcaniaethwyr eraill, er bod angen i'r ymateb ymwneud â William Glasser yn unig. Cafodd ymgeiswyr farciau o bob band marciau am eu hymatebion.

**6. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau sgrinio i hybu iechyd a llesiant plant.**

**Myfyriwch (*reflect*) ar werth strategaethau a gwasanaethau sgrinio iechyd plant yng Nghymru.**

Roedd y cwestiwn 8 marc hwn yn rhoi cyfle i'r ymgeiswyr drafod y gwasanaethau sgrinio sydd ar gael mewn gofal iechyd i blant, a gallu myfyrio ynghylch gwerth strategaethau a gwasanaethau sgrinio iechyd plant sydd ar gael yng Nghymru. Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn mynegi gwybodaeth a dealltwriaeth o'r mathau o wasanaethau sgrinio ac yn esbonio beth ydynt, er nad oedd llawer yn mynegi'r gwerth na sut mae'r gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru yn gallu hybu iechyd a llesiant plant.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd ymgeiswyr a oedd yn myfyrio'n glir ynglŷn â gwerth sgrinio iechyd plant yn archwilio sut mae breichiadau imiwneiddio'n amddiffyn iechyd plant a'r gymuned rhag clefydau. Roeddent hefyd yn myfyrio ynghylch sut mae gwasanaethau sgrinio'n gallu canfod pryderon iechyd posibl mewn babanod a phlant, sut mae sgrinio'n cynnig cyfle i ganfod cyflyrau genynnol neu gromosomaidd a sut mae gwasanaethau sgrinio'n gallu canfod cyflyrau iechyd, ac yn galluogi cyfle i wneud penderfyniadau am anghenion iechyd i gynyddu triniaeth effeithiol. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a roddwyd yn egluro'r strategaethau sgrinio, ac roedd llawer o ymgeiswyr yn myfyrio'n rhagorol ac yn gallu ennill marciau yn y bandiau uchel.

**7. Mae Henry yn cael trafferth canolbwyntio ar weithgareddau, mae'n dangos ymddygiad negyddol ac mae wedi cael diagnosis o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (*Attention Deficit Hyperactivity Disorder:* ADHD).**

**Esboniwch sut mae ysgol Henry yn gallu cefnogi ei anghenion dysgu ychwanegol.**

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ganolbwyntio ar anghenion plentyn penodol. Mae Henry wedi cael diagnosis o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ac mae'r cwestiwn 7 marc hwn yn gofyn am esboniad o sut gall yr ysgol gefnogi ei anghenion dysgu ychwanegol i'w helpu â'i anhawster i ganolbwyntio ar weithgareddau. Roedd yr ymgeiswyr yn esbonio sut bydd angen i Henry gael egwyliau byr yn ei ddydd, fel cyfleoedd i symud o gwmpas yr ystafell ddosbarth. Roedd llawer yn trafod sut byddai'n gallu cael cefnogaeth i fynd y tu allan gyda goruchwyliaeth neu gefnogaeth un-i-un i gerdded o gwmpas maes chwarae'r ysgol i'w helpu i ganolbwyntio ar gwblhau gweithgareddau. Roedd ymatebion yr ymgeiswyr yn rhoi pwyslais sylweddol ar bwysigrwydd trefn ddyddiol glir; roedd llawer yn sôn am fod â strwythur a chynllun clir o ddigwyddiadau yn ystod y dydd i gefnogi Henry i ganolbwyntio, a newid gweithgareddau'n aml i'w helpu i ganolbwyntio pan fyddai angen. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu ennill marciau uwch drwy ddarparu ystod o ymatebion i alluogi Henry i ganolbwyntio ar weithgareddau. Yn aml, cynigiwyd enghreifftiau o leoliad gwaith i ategu'r esboniad ac roedd hyn yn aml yn ychwanegu cysylltiadau arwyddocaol at lefel y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a fynegwyd.

**8. Dadansoddwch fanteision y gwasanaeth sy'n seiliedig ar iechyd ac addysg sy'n cael ei ddarparu drwy leoliadau Dechrau'n Deg.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ddadansoddi manteision y gwasanaeth sy'n seiliedig ar iechyd ac addysg sy'n cael ei ddarparu drwy leoliadau Dechrau'n Deg. Roedd gan yr ymgeiswyr ddealltwriaeth glir o'r meithrinfeydd Dechrau'n Deg ac ar y cyfan roeddent yn mynegi dealltwriaeth gadarn o werth y meithrinfeydd i blant a'u rhieni/gofalwyr. Roedd ymgeiswyr yn tynnu sylw at y ffaith bod y lleoliadau'n cael eu darparu mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru, a'r manteision i ddatblygiad blynyddoedd cynnar plant a rhoi cyfleoedd i rieni fynd yn ôl i'r gwaith. Gwelwyd ymatebion manylach lle roedd ymgeiswyr yn gallu sôn am amrywiaeth eang o feysydd allweddol mae'r meithrinfeydd Dechrau'n Deg yn eu darparu i blant, fel: cefnogaeth lleferydd ac iaith drwy gyfrwng strategaethau a gweithgareddau darllen, a chefnogaeth wedi'i thargedu i ymyrryd yn gynnar lle bo angen, a sôn hefyd am y gwasanaeth ymwelwyr iechyd i dargedu teuluoedd mewn angen a manteision y gefnogaeth hon, rhaglenni rhianta cefnogol, a manteision galluogi rhieni i ddatblygu sgiliau rhianta a sgiliau personol a'u cefnogi i ddychwelyd i'r gweithle.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Ar y cyfan, cafwyd ymatebion ar lefelau amrywiol i'r cwestiwn 10 marc hwn; roedd rhai yn rhoi golwg gryno ar y lleoliad Dechrau'n Deg ac eraill yn rhoi mwy o fanylder a dealltwriaeth gadarn o'r gwasanaethau sy'n seiliedig ar iechyd ac addysg sy'n cael eu cynnig yn y lleoliadau Dechrau'n Deg.

**9. Mae myfyrio (*reflection*) a newid ymarfer yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant.**

**Disgrifiwch bwrpas myfyrio personol i fodloni anghenion plant yn effeithiol.**

Roedd ymgeiswyr yn gallu darparu ymatebion clir a gwybodus ynglŷn â myfyrio. Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn disgrifio pwrpas myfyrio personol i fodloni anghenion plant yn effeithiol yn y cwestiwn 9 marc hwn drwy gysylltu hyn ag ymarfer a phrofiadau personol. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn trafod effaith y damcaniaethwyr Kolb a Gibbs, ac yn defnyddio eu hastudiaethau fel rhan o'u hesboniad gan dynnu sylw at wybodaeth a dealltwriaeth gadarn ynglŷn â maes testun myfyrio ymarferol. Roedd ymgeiswyr yn aml yn disgrifio pwrpas dysgu drwy fyfyrio a chreu gwelliannau ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Cafwyd llawer o drafodaethau hefyd am dwf personol a gwella eu hunain wrth fyfyrio, a gwerth myfyrio o ran gwneud newid cadarnhaol i gefnogi plant, ac osgoi ailadrodd pan nad yw gweithgareddau neu ganlyniadau fel y disgwyl. Roedd ymgeiswyr yn trafod llawer o feysydd yn ymwneud â'r amgylchedd fel rhan o fyfyrio gan ganolbwyntio ar wneud gwelliannau gan ddilyn arsylwadau o brofiadau chwarae a dysgu plant i sicrhau bod canlyniadau yn y dyfodol yn gadarnhaol ac yn cefnogi sgiliau ac anghenion y plant. Ar y cyfan, roedd hwn yn gwestiwn a enillodd farciau uchel ac roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn eglur.

**10. Mae’n ofynnol i warchodwyr plant cofrestredig (*registered child minders*) a darparwyr gofal dydd fodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer plant hyd at 12 oed.**

**Amlinellwch effaith y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

Ar y cyfan roedd ymgeiswyr yn gallu cwblhau disgwyliadau'r cwestiwn hwn yn dda iawn. Roedd y cwestiwn yn gofyn am amlinelliad o effaith y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant hyd at 12 oed. Yn aml, byddai ymgeiswyr yn rhoi amlinelliad o'r safonau sy'n cael eu disgwyl yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac yn myfyrio ynghylch pwysigrwydd gofal dydd o ansawdd da â staff cymwysedig sy'n cael eu harchwilio a'u rheoleiddio. Roedd yr ymgeiswyr yn amlinellu sut mae'n rhaid i leoliadau gofal dydd ddilyn y safonau er mwyn gallu aros ar agor fel busnes, gan fod addasrwydd y cyfleusterau a safon y gofal i'r plant yn cael eu hasesu. Roedd ymgeiswyr yn amlinellu effaith storio meddyginiaeth yn ddiogel a bodloni anghenion iechyd ac anghenion maeth fel rhan o safonau gofynnol darpariaeth o ansawdd da. Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr yn gallu ennill amrywiaeth o farciau, ac roedd llawer yn cyrraedd y bandiau marciau uchaf am y cwestiwn 6 marc hwn.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**11. Mae 'Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae' yn ganllawiau statudol sy'n gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol yn sicrhau digon o gyfleoedd chwarae i blant.**

**Aseswch effaith canllawiau 'Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae' ar blant yng Nghymru.**

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos dealltwriaeth dda o'r cyfleoedd chwarae i blant; roedd ymgeiswyr yn gallu trafod gwerth chwarae a phwysigrwydd cynnig cyfleusterau ac adnoddau chwarae. Roedd ymatebion rhai ymgeiswyr wedi methu'r targed i raddau gan drafod chwarae yn gyffredinol, ond roedd y mwyafrif yn gallu defnyddio'r cwestiwn i ategu eu hymateb. Roedd ymgeiswyr yn aml yn gallu ennill marciau drwy asesu effaith canllawiau *'Cymru – Gwlad lle mae Cyfle i Chwarae'* ar blant yng Nghymru, gan gyrraedd y bandiau marciau uchaf yn y cwestiwn 8 marc hwn.

Roedd llawer yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o arwyddocâd cyfleusterau chwarae a chyfleoedd chwarae i blant sy'n briodol i'w hoed, yn ddiogel ac yn ddigonol. Roedd rhai yn pwysleisio arwyddocâd y canllawiau sy'n rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i sicrhau bod cyfleoedd chwarae a mannau gwyrdd ar gael i blant yn eu cymunedau lleol. Roedd llawer o ymgeiswyr yn trafod pwysigrwydd mannau chwarae hygyrch i leihau'r rhwystrau sy'n wynebu plant ag anghenion penodol ac anableddau corfforol, a sut mae angen i fannau chwarae fod yn hygyrch i bob plentyn ym mhob cymuned. Roedd cyfran fawr o'r ymgeiswyr yn myfyrio ynghylch arwyddocâd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn aml yn sôn am erthyglau penodol i ategu eu trafodaeth. Gan mai hwn oedd y cwestiwn olaf yn y papur, mae'n bosibl bod cyfyngiadau amser a blinder wedi amharu ar farciau llawer o'r ymgeiswyr, ond ar y cyfan rhoddwyd ymatebion gwybodus â thrafodaethau perthnasol am bwysigrwydd cyfleoedd chwarae digonol mewn cymunedau lleol a sut gall hyn effeithio ar blant nawr ac yn y dyfodol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI**

**Lefel 3**

**Ionawr 2026**

**UNED 331: YMCHWILIO I FATERION CYFREDOL YM MAES GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT YNG NGHYMRU**

**Trosolwg o'r Uned**

**Ymchwiliad Estynedig**

Mae'r ymchwiliad estynedig i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae a datblygiad plant yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymchwilio i fater cyfoes i'r sector gan ddewis un o'r testunau canlynol i wneud ymchwil iddo:

**Testun 1**

Mae ffactorau cyfredol a chyfoes yn effeithio ar iechyd a llesiant plant.

Gwnewch ymchwil ar amrywiaeth o ffactorau cyfredol a chyfoes a'u heffaith ar ddatblygiad.

**Testun 2**

Mae'r fframwaith cwricwlwm statudol yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio i lywio cynllunio er mwyn sicrhau datblygiad cyfannol plant mewn ymarfer.

Gwnewch ymchwil ar y gwerth o ddefnyddio gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb i gefnogi datblygiad cyfannol plant.

**Crynodeb yr Uwch Arholwr**

Yn yr uned hon, mae angen i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth gadarn o'r cysyniadau allweddol, y gwerthoedd a'r materion sy'n tanategu gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, a chymhwyso'r wybodaeth hon wrth ddadansoddi arferion seiliedig ar dystiolaeth—eu harferion eu hunain ac arferion maen nhw'n eu harsylwi mewn lleoliadau. Rhaid i ymgeiswyr ymchwilio i ddamcaniaethau, deddfwriaethau ac arferion perthnasol a'u gwerthuso, a myfyrio'n feirniadol ynghylch sut mae'r rhain yn dylanwadu ar ddulliau proffesiynol o fewn gwasanaethau i blant. Mae ymchwil annibynnol yn hanfodol, ac mae disgwyl i ymgeiswyr alw ar amrywiaeth eang o ffynonellau credadwy i ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws o'u dewis, gan gasglu tystiolaeth ddibynadwy a digonol i ategu'r ymchwiliad terfynol.

Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr Destun 1—ffactorau cyfredol a chyfoes sy’n effeithio ar iechyd a llesiant plant. Roedd y rhan fwyaf yn gallu archwilio sut mae'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar ddatblygiad cyfannol, gan alw'n effeithiol ar gynnwys gafodd ei addysgu yn Uned 330 (testun 1, meini prawf 1.3). Roedd ymchwiliadau cryf yn rhoi sylw i amrywiaeth eang o faterion perthnasol gan gynnwys newidiadau i strwythur teuluol, pwysau ariannol, iechyd meddwl, cyfryngau cymdeithasol, anghenion ychwanegol, hunanddelwedd a rôl gofalwyr ifanc. Roedd ymatebion lefel uwch yn dangos dull gweithredu personol a myfyriol, gan gysylltu ymchwil â phrofiad ymarferol. Roedd yr ymchwiliadau hyn wedi'u strwythuro'n glir, yn gyson â'r meysydd tystiolaeth gofynnol, ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddisgwyliadau'r dasg.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd nifer llai wedi dewis Testun 2— rhoi gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb ar waith drwy'r fframwaith cwricwlwm statudol i gefnogi datblygiad cyfannol. Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr hyn yn dangos dealltwriaeth glir o sut mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddefnyddio i lywio cynllunio, dysgu drwy brofiadau a dulliau gweithredu seiliedig ar chwarae. Roedd llawer yn defnyddio gwybodaeth o Uned 330 testun 5 (meini prawf 5.2) ac yn cysylltu'r theori â phrofiad ymarferol mewn lleoliadau gofal plant.

Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cynhyrchu ymchwiliadau wedi'u strwythuro'n dda â gwybodaeth gadarn gan ystyried arferion y gweithle mewn modd meddylgar. Fodd bynnag, gwelwyd amrywiadau o ran dyfnder ymchwil a chyfeirnodi anghyson. Nid oedd rhai ymgeiswyr wedi darparu rhestri cyfeirnodi, ac roedd eraill yn dibynnu ar ffynonellau heb dystiolaeth ddigonol. Roedd y gwahaniaethau hyn yn cael dylanwad cryf ar raddau; rhoddwyd marciau uwch i ymgeiswyr oedd yn cysylltu'r ymarfer â'r theori yn glir ac yn ategu eu gwaith ag ymchwil wedi'i ddewis yn dda.

Mewn llawer o achosion, gwelwyd tystiolaeth o feysydd ffocws wedi'u cyfarwyddo gan ganolfannau. Er bod hyn o gymorth i strwythur, roedd yn cyfyngu ar annibyniaeth yr ymgeiswyr. Mae Uned 331 wedi'i chynllunio i alluogi dewis personol, gan ganiatáu i ymgeiswyr archwilio testun sy'n adlewyrchu eu profiadau, eu diddordebau a'u safbwyntiau eu hunain. Mae perchnogaeth unigol yn hanfodol i ddangos gwreiddioldeb, mewnwelediad myfyriol ac ymgysylltu ystyrlon â'r ymchwiliad.

Gofynion Strwythurol a Gweinyddol Allweddol

I sicrhau eglurder, ansawdd a glynu at amodau'r asesiad, rhaid i ymgeiswyr:

- Nodi'r teitl a'r testun dewisol yn glir ar y dudalen gyntaf.
- Cynnwys rhif y ganolfan, rhif yr ymgeisydd a rhifau tudalen ar bob tudalen.
- Labelu Tasgau 1–6 yn gywir; ni ellir marcio gwaith heb ei labelu.
- Osgoi defnyddio'r rhyngrwyd yn ystod cyfnod yr Asesiad Di-arholiad.
- Peidio â chynnwys hypergysylltau, arolygon na holiaduron.
- Sicrhau bod trafodaethau am ddeddfau a fframweithiau yn ymwneud yn benodol â Chymru.
- Osgoi defnyddio AI fel ffynhonnell ymchwil.
- Darparu rhestr gyfeirio gyflawn yn arddull Harvard.
- Cyflwyno gwaith ar ffurf dogfen Word, nid PDF.
- Cynnal amserlen fanwl gywir, gan gynnwys egwyliau.
- Cadw'r cyfrif geiriau o dan 5,500 gair (heb gynnwys cyfeiriadau/llyfryddiaeth).
- Osgoi defnyddio testun wedi'i gopïo, pwyntiau bwled, tablau na phrofformâu.
- Sicrhau bod pob tasg yn cysylltu'n glir â'r testun dewisol drwy gydol yr ymchwiliad.
- Ysgrifennu yn y person cyntaf, gan alw ar brofiadau a safbwyntiau personol.
- Dewis nifer bach o feysydd ffocws yn unig i ganiatáu dyfnder ac eglurder.

Mae'r gofynion hyn yn cefnogi ymchwiliadau o ansawdd da ac yn galluogi ymgeiswyr i gael mynediad at yr amrediad llawn o farciau sydd ar gael.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1**

**Ysgrifennwch ragarweiniad i'ch ymchwiliad estynedig.**

Amlinellwch:

- y prif meysydd ffocws rydych chi wedi dewis ymchwilio iddyn nhw mewn perthynas â'r testun rydych chi wedi'i ddewis
- pam rydych chi wedi dewis y testun a'r meysydd ffocws; efallai byddwch chi'n dymuno sôn am ddiddordeb personol, cynnwys rydych chi wedi'i ddysgu gyda'r athro, ymgysylltu â'r sector a'ch lleoliad gwaith ar gyfer y dulliau ymchwil rydych chi wedi'u defnyddio
- y ffynonellau rydych chi wedi'u defnyddio wrth ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws.

Mae'r dasg hon yn gofyn am ragarweiniad â ffocws clir i'r ymchwiliad estynedig. Rhaid nodi'r meysydd ffocws yn benodol a'u cysylltu'n uniongyrchol â'r testun dan sylw. Dylid dewis a chyfiawnhau un neu ddau faes ffocws allweddol, gyda rhesymau dros eu dewis sy'n gysylltiedig â diddordeb personol a/neu brofiadau ymarferol mewn amgylchedd gwaith neu ddysgu sydd wedi ysgogi ymchwiliad pellach. Dylid cadw cwmpas y meysydd ffocws yn gyfyngedig er mwyn caniatáu ystyried a gwerthuso manwl gan ddefnyddio amryw o ddulliau ymchwil ar draws yr ymchwiliad. Rhaid nodi tystiolaeth o weithgaredd ymchwil, gan gynnwys enwi deunyddiau darllen a ffynonellau dewisol yn glir er mwyn cefnogi cyfeiriad a phwrpas yr ymchwiliad.

**Tasgau**

**Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu**

Ar y cyfan, roedd Tasg 1 yn dangos diffyg sylw clir i feysydd tystiolaeth, a chyfrannodd hyn at farciau is i rai ymgeiswyr. Yn aml, roedd cyfeiriadau a ffynonellau gwybodaeth ar goll, ac mewn llawer o achosion nid oedd y sail resymegol dros ddewis y testun yn ddigon manwl. Er bod y testun dewisol fel rheol wedi'i nodi'n glir yn adran gyntaf yr ymchwiliad, weithiau nid oedd yr esboniadau am y dewis wedi'u datblygu'n ddigonol. Lle rhoddwyd rhesymau, roedd y rhain yn aml wedi'u cysylltu â phrofiad personol neu awydd i ddysgu mwy drwy wneud ymchwil, gan roi ffocws ac eglurder diddordeb personol, cynnwys wedi'i addysgu a phrofiadau â'r nod o gefnogi'r ymchwiliad yn ei gyfanrwydd.

Roedd ymgeiswyr yn tueddu i ddewis nifer cyfyngedig a hylaw o feysydd ffocws ar gyfer eu hymchwiliad ac yn gallu cyfiawnhau'r dewisiadau hyn yn glir, gan amlinellu'r hyn roedden nhw'n bwriadu ei ddysgu drwy wneud ymchwil manwl. Roedd llawer hefyd yn gallu awgrymu cyfeiriadau meddylgar a pherthnasol ar gyfer astudio pellach.

**Marcio tasgau**

**Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**

Mae angen meysydd i'w gwella mewn perthynas â dangos tystiolaeth a chyfeirio at ffynonellau. Er bod llawer o ymgeiswyr wedi defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau i ategu eu hymchwil, ni chafwyd digon o esboniad pam roedd y ffynonellau hyn yn briodol na sut roedden nhw'n cefnogi'r ymchwiliad. Roedd ymatebion cryfach yn cyfeirio at ddeddfwriaeth, gwerslyfrau a gwefannau penodol ac yn esbonio perthnasedd a gwerth y ffynonellau hyn i'r testun dan sylw, gan roi sylfaen gliriach i'r ymchwiliad.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Fodd bynnag, nid oedd llawer o ymgeiswyr wedi amlinellu'r ffynonellau a ddefnyddiwyd yn glir na chyfiawnhau eu pwrpas, ac roedd hyn yn amharu ar eglurder a chyfeiriad ffocws yr ymchwil.

**Tasg 2**

**Trafodwch sut mae'r testun a'r meysydd ffocws rydych chi wedi'u dewis yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

**Rhaid** i'ch tystiolaeth gynnwys:
- sut mae'r meysydd ffocws yn cefnogi gofal, dysgu, chwarae a datblygiad plant (mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol)
- amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys eich safbwynt chi a/neu safbwyntiau pobl eraill
- enghreifftiau priodol o ddamcaniaeth a/neu ymarfer i gefnogi eich trafodaeth
- sut mae damcaniaeth/deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol (fel bo'n briodol) wedi effeithio ar y testun a'r meysydd ffocws
- cyfeiriadau neu ddyfyniadau olrheiniadwy (traceable) i gefnogi tystiolaeth.

Mae disgwyl i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o ddamcaniaeth, fframweithiau a/neu ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â'r meysydd ffocws o'u dewis a chymhwyso'r wybodaeth hon at ymarfer. Dylid archwilio agweddau cadarnhaol a negyddol, ynghyd â safbwynt yr ymgeisydd ei hun ac ystyried safbwyntiau gwahanol. Byddai hyn yn gallu cynnwys enghreifftiau sy'n deillio o leoliadau gwaith ac arsylwi ymarfer, y gellir eu defnyddio i wirio safbwyntiau. Rhaid integreiddio damcaniaeth, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol a phriodol i ategu'r drafodaeth, a dylid cyfeirio'n effeithiol ac yn gywir at ffynonellau drwyddi draw.

**Tasgau**

**Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu**

Ar gyfer Tasg 2, roedd gwahanol safbwyntiau wedi'u datblygu'n gyfyngedig. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi un neu ddau faes ffocws a darparu rhai pwyntiau trafod perthnasol. Roedd y dasg yn caniatáu i ymgeiswyr fyfyrio ar agweddau cadarnhaol a negyddol ar eu meysydd ffocws, ac roedd llawer yn defnyddio enghreifftiau o brofiad ymarferol i ategu eu pwyntiau. Roedd y myfyrdodau hyn yn gyffredinol yn aros yn gysylltiedig â'r meysydd ffocws a nodwyd yn Nhasg 1. Fodd bynnag, roedd cyfeirnodi'n aml yn aneglur neu ar goll, ac nid oedd ffynonellau'n cael eu cynnwys yn gyson. Roedd rhai ymgeiswyr yn dibynnu'n ormod ar ddyfyniadau uniongyrchol, ac roedd adrannau mawr wedi'u copïo yn hytrach na'u trafod. Dylid defnyddio dyfyniadau'n gynnil i ategu syniadau. Roedd rhai ymatebion hefyd yn defnyddio datganiadau byr heb eu datblygu yn hytrach na pharagraffau llawn, ac roedd hynny'n effeithio ar lif ac eglurder y dasg.

**Marcio tasgau**

**Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**

Mae'r meysydd i'w gwella yn cynnwys cadw ffocws clir ar gwestiwn y testun drwy gydol yr ymchwiliad. Roedd Tasg 2 yn dangos datblygiad cyfyngedig ar wahanol safbwyntiau; byddai'r rhain yn gallu cynnwys barn/safbwyntiau eu hunain, barn broffesiynol, ymchwil o lyfrau neu'r rhyngrwyd, fideos o drafodaeth â gweithwyr proffesiynol/arbenigwyr, neu drafodaethau â staff yn eu gwaith.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd rhai ymgeiswyr yn dangos diffyg ffocws ar y testun o'u dewis; byddai'r rhain wedi gallu gwneud mwy i archwilio sut mae ffactorau cyfredol a chyfoes yn effeithio ar iechyd a llesiant plant drwy ddefnyddio safbwyntiau ac enghreifftiau mewn modd clir i ategu'r drafodaeth. Roedd yr ymgeiswyr oedd wedi dewis Testun 2 yn cynnig trafodaethau da am y fframwaith cwricwlwm statudol yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio i lywio cynllunio, ond byddai rhagor o dystiolaeth am y newid i ddeddfwriaethau i gefnogi datblygiad cyfannol yn ymarferol yn ategu'r drafodaeth hon â mwy o bwrpas ac eglurder.

**Tasg 3**

**Gwerthuswch sut mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i'r testun a'r meysydd ffocws rydych chi wedi'u dewis yn cael eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

Gallai eich tystiolaeth sôn am y canlynol:

- cyfathrebu effeithiol
- gwaith tîm a gweithio ar y cyd
- cydraddoldeb/cynhwysiant/amrywiaeth
- rhyddid i gymryd rhan
- cynnal hawliau plant
- sgiliau proffesiynol neu unrhyw sgìl arall/sgiliau eraill fel bo'n briodol.

Mae'r dasg hon yn canolbwyntio ar werthuso amrywiaeth o werthoedd ac egwyddorion. Gellir cryfhau gwaith gwerthuso drwy alw ar wybodaeth o gynnwys sydd wedi'i addysgu ac enghreifftiau o brofiad ymarferol. Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr yn gallu ystyried amrywiaeth o bwyntiau trafod yn ymwneud ag ymarfer ac yn cynnwys enghreifftiau clir i fodloni'r meysydd tystiolaeth allweddol, megis pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, gwaith tîm a sgiliau proffesiynol.

**Tasgau**

**Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu**

Roedd ymgeiswyr yn gallu cyflwyno trafodaethau cryf yn ymwneud â'r meysydd ffocws, gan gysylltu sut gall amrywiaeth o werthoedd ac egwyddorion gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth o destun 1; ffactorau cyfredol a chyfoes yn effeithio ar iechyd a llesiant plant a thestun 2; y fframwaith cwricwlwm statudol yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio i lywio cynllunio er mwyn sicrhau datblygiad cyfannol plant mewn ymarfer. Roedd y dasg hon yn rhoi cyfle i fyfyrio ar brofiadau yn y gweithle ac ymarfer proffesiynol, ac roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu cyflwyno trafodaethau clir oedd yn cysylltu'n effeithiol â gwerthoedd ac egwyddorion y testun o'u dewis.

Roedd trafodaethau'n aml yn cynnwys y meysydd tystiolaeth canlynol: Cyfathrebu effeithiol; roedd ymgeiswyr yn dangos sut mae cyfathrebu clir, priodol a sensitif â phlant, cydweithwyr a theuluoedd yn cefnogi datblygiad cyfannol, yn meithrin perthnasoedd, ac yn sicrhau bod anghenion plant yn cael eu deall a'u bodloni. Gwaith tîm a gweithio ar y cyd; roedd llawer o ymgeiswyr yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithio ar y cyd â chydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, a theuluoedd i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau sy'n hybu gofal, dysgu a llesiant plant.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth; roedd ymgeiswyr yn gallu trafod yr angen i ddarparu amgylcheddau cynhwysol lle mae cyfleoedd ac adnoddau ar gael i bob plentyn, waeth beth fo'i gefndir, gallu neu amgylchiadau personol. Cynnal hawliau plant; roedd ymgeiswyr yn ystyried sut caiff egwyddorion fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn eu hymgorffori yn ymarferol. Roedd y trafodaethau'n cynnwys sicrhau bod gan blant lais, a pharchu eu dewisiadau. Sgiliau proffesiynol: Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn myfyrio ar bwysigrwydd proffesiynoldeb, gan gynnwys cadw at ymarfer moesol a phwysigrwydd dilyn polisïau a gweithdrefnau.

Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r gwerthoedd a'r egwyddorion ac yn gallu cysylltu'r rhain yn effeithiol â'r testun a'r meysydd ffocws o'u dewis. Roeddent yn esbonio sut mae'r egwyddorion hyn yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac roedd llawer yn cynnwys ymchwil ychwanegol oedd yn berthnasol i'w meysydd ffocws. Roedd yr ymatebion yn aml yn galw ar brofiadau yn y gwaith a phrofiadau personol, gan ddangos gwybodaeth am yr arferion a'r sgiliau proffesiynol sy'n ofynnol wrth weithio gyda phlant.

**Marcio tasgau**

**Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**

Mae meysydd i'w gwella'n cynnwys darparu mwy o drafodaeth werthusol am sut caiff y gwerthoedd a'r egwyddorion eu cymhwyso yn ymarferol. Byddai'r ymgeiswyr yn gallu gwella eu gwaith drwy wneud dyfarniadau gwerthusol ar sail profiadau ymarferol, er mwyn cynnig mewnwelediad a dealltwriaeth ddyfnach o'r testun a'r meysydd ffocws o'u dewis.

**Tasg 4**

**Ystyriwch sut mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol (fel bo'n briodol) wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

**Rhaid** i'ch tystiolaeth gynnwys cysylltiadau clir â sut mae'r damcaniaethau, y ddeddfwriaeth neu'r fframweithiau wedi dylanwadu ar ymarfer yn y lleoliadau rydych chi wedi cael profiad ohonyn nhw.

I gwblhau'r dasg hon, mae angen i ymgeiswyr greu cysylltiadau clir â ddamcaniaeth, deddfwriaeth a/neu fframweithiau perthnasol, yn enwedig rhai sy'n berthnasol yng Nghymru, fel sy'n briodol i'r ffocws testun o'u dewis. Dylai ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth ddwfn ac eang drwy ystyried cryfderau a gwendidau o ran ymarfer. Dylid datblygu tystiolaeth i ddangos cysylltiadau clir â phrofiadau ar leoliad gwaith. Rhaid i ymgeiswyr drafod sut mae deddfwriaeth, fframweithiau a/neu safbwyntiau damcaniaethol wedi dylanwadu ar ymarfer cyfredol ac wedi cyfrannu at newidiadau i leoliadau plant, gan ddefnyddio eu myfyrdodau eu hunain i ddehongli'r effaith ar ymarfer proffesiynol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Tasgau**

**Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu**

Mae angen i ymgeiswyr ystyried sut mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Dylai'r dystiolaeth ddangos yn glir sut mae'r rhain wedi effeithio ar brofiadau'r ymgeisydd ei hun mewn lleoliadau maen nhw wedi eu harsylwi neu wedi gweithio ynddynt. Er enghraifft, roedd yr ymgeiswyr oedd wedi dewis y testun; ffactorau cyfredol a chyfoes yn effeithio ar iechyd a llesiant plant yn gallu cysylltu damcaniaeth systemau ecolegol Bronfenbrenner â sefyllfaoedd roedden nhw wedi arsylwi arnynt, gan esbonio sut roedd ffactorau teuluol neu gymunedol yn effeithio ar ddatblygiad plant yn ymarferol. Roedd ymgeiswyr hefyd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth diogelu i ddisgrifio sut roedden nhw'n sicrhau bod diogelwch a hawliau plant yn cael eu cynnal yn ystod gweithgareddau.

Roedd yr ymgeiswyr oedd wedi dewis testun 2; gwerth o ddefnyddio gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb i gefnogi datblygiad cyfannol plant yn dangos sut roedd y Cwricwlwm i Gymru wedi dylanwadu arnynt wrth gynllunio a chyflwyno profiadau dysgu ymarferol. Roeddent yn myfyrio ar sut roedd defnyddio fframweithiau, fel dysgu drwy brofiadau neu ddysgu drwy chwarae, yn cefnogi datblygiad cyfannol plant yn eu lleoliad.

Roedd ymgeiswyr hefyd yn disgrifio sut roedd cymhwyso sgiliau proffesiynol, fel arsylwi, asesu a chyfathrebu, yn eu helpu i addasu gweithgareddau i fodloni anghenion plant unigol a hybu cynhwysiant. Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr yn gallu dangos sut roedd damcaniaeth, deddfwriaeth a fframweithiau'n rhoi sail i'w penderfyniadau ymarferol, yn dylanwadu ar gynllunio a chyflwyno gweithgareddau, ac yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant mewn lleoliadau yn y byd go iawn.

**Marcio tasgau**

**Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**

Mae'r meysydd i'w gwella'n cynnwys darparu mwy o ddyfnder mewn trafodaethau. Mae llawer o ymgeiswyr yn cyfeirio at amrywiaeth eang o ddamcaniaethau, deddfwriaethau neu fframweithiau, ond gall cyfeirio at ormod eu hatal rhag archwilio pob un yn drylwyr. Byddai canolbwyntio ar nifer llai o gyfeiriadau allweddol yn caniatáu cysylltiadau cliriach ag ymarfer a thrafodaeth fanylach. Ar nodyn cadarnhaol, mae ymgeiswyr yn dangos ymroddiad i'w hymchwil ac yn gwneud cysylltiadau meddylgar rhwng damcaniaethau a'u profiadau ymarferol eu hunain. Byddai'n bosibl cyfeirnodi'n well hefyd, gan gyfeirnodi'n glir yn y testun a chynnwys rhestr gyfeirio gyflawn i ddangos yn iawn pa ffynonellau a ddefnyddiwyd.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Tasg 5**

**Aseswch sut mae gwybod (having knowledge) am y testun rydych chi wedi'i ddewis a'r damcaniaethau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig yn gallu cael ei ddefnyddio i achosi newid yn y ddarpariaeth gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru.**

**Rhaid** i'ch tystiolaeth:

- Ddangos ymwybyddiaeth o ddulliau ymarfer *(practice approaches)* newydd a rhai sy'n datblygu
- Cyfeirio at amrywiaeth o leoliadau o fewn y sector
- Llunio barn sy'n cysylltu ymarfer â damcaniaeth (ffocws y testun, damcaniaethau a deddfwriaeth gysylltiedig)
- awgrymu newidiadau yn y dyfodol y byddai'n bosibl eu mabwysiadu mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

**Rhaid** i'r dystiolaeth gyfeirio at ymchwil sydd wedi'i wneud a **rhaid** i'r dystiolaeth sôn am brofiadau mewn ymarfer.

Mae'r dasg hon yn edrych tuag at newidiadau ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ymchwil a dealltwriaeth yr ymgeisydd o'r testun a'r meysydd ffocws o'u dewis. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ystyried y wybodaeth y maent wedi'i hennill trwy ymchwilio i'w testun a'u meysydd ffocws cysylltiedig ac asesu sut gellir defnyddio'r damcaniaethau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig i sicrhau newid mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

**Tasgau**

**Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu**

Cafwyd ymateb cadarnhaol ar y cyfan i Dasg 5; roedd yr ymgeiswyr yn darparu trafodaethau cryf i gysylltu eu hymarfer proffesiynol â dealltwriaeth ddamcaniaethol. Ar gyfer testun 1; ffactorau cyfredol a chyfoes yn effeithio ar iechyd a llesiant plant, roedd ymgeiswyr yn myfyrio ar sut byddai ymchwil i ffactorau fel iechyd meddwl, strwythur teuluol, neu'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu dylanwadu ar strategaethau i gefnogi llesiant plant.

Er enghraifft, roedd rhai ymgeiswyr yn disgrifio sut roedd arsylwi ar blant a oedd yn profi straen yn eu lleoliad wedi eu harwain i gymhwyso gwybodaeth am ddamcaniaeth systemau ecolegol Bronfenbrenner i ystyried effaith ehangach ffactorau teuluol a chymunedol, ac yn awgrymu addasiadau i drefn ddyddiol neu ymyrryd i roi gwell cefnogaeth i anghenion unigol. Roedd eraill yn cyfeirio at ddeddfwriaeth diogelu i esbonio sut bydden nhw'n rhoi newidiadau ar waith i amddiffyn plant yn fwy effeithiol.

Ar gyfer testun 2; gwerth o ddefnyddio gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb i gefnogi datblygiad cyfannol plant, roedd ymgeiswyr yn trafod sut gellid defnyddio fframweithiau fel y Cwricwlwm i Gymru a damcaniaethau dysgu drwy brofiad i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau yn well. Er enghraifft, roedd rhai ymgeiswyr yn disgrifio addasu tasgau dysgu seiliedig ar chwarae i fodloni anghenion plant â gofynion dysgu ychwanegol neu ddefnyddio arsylwi ac asesu i werthuso effaith gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb ar ddatblygiad cyfannol. Roedd eraill yn awgrymu sut byddai deddfwriaeth newydd neu ganllawiau wedi'u diweddaru'n gallu rhoi sail i newidiadau i ymarfer, fel hybu cynhwysiant, cyfranogiad, a hawliau plant yn ystod gweithgareddau strwythuredig a chwarae rhydd.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd ymgeiswyr yn gallu mynegi barn ar sail gwybodaeth, gan gynnig awgrymiadau a barn mewn modd proffesiynol a myfyriol.  Ar y cyfan, roedd y tasgau'n dangos sut mae ymchwil, damcaniaeth a deddfwriaeth yn gallu dylanwadu ar ymarfer a chefnogi gwelliannau i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, gan gynnwys cysylltiadau clir â'r testun a'r meysydd ffocws o'u dewis.

**Marcio tasgau**

**Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**
Mae meysydd i'w gwella'n cynnwys darparu mwy o drafodaeth am fanteision newidiadau newydd a newidiadau yn y dyfodol. Mae llawer o ymgeiswyr yn canolbwyntio ar arferion cyfredol yn hytrach nag ystyried sut byddai deddfwriaeth, fframweithiau, neu ymchwil newydd yn gallu gwella gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Ar gyfer testun 1, byddai'r ymgeiswyr yn gallu myfyrio ar sut byddai ffactorau fel iechyd meddwl, dylanwadau digidol, neu newidiadau teuluol yn gallu siapio ymarfer yn y dyfodol. Ar gyfer testun 2, byddai'r ymgeiswyr yn gallu ystyried sut byddai fframweithiau wedi'u diweddaru neu strategaethau chwarae arloesol yn gallu gwella profiadau dysgu. Byddai cysylltu'r syniadau hyn â'u profiadau eu hunain o'u lleoliadau'n gwneud myfyrdodau'n gryfach ac yn dangos sut gellid gwella ymarfer.

**Tasg 6**

**Trafodwch sut bydd eich ymchwil a'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun yn y dyfodol.**

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys:

- myfyrio ar werth neu fanteision yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu wrth i chi ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws
- beth hoffech chi ei wneud, ar sail eich casgliadau, i wella eich ymarfer eich hun yn y dyfodol
- cyfeirio at sut byddai newidiadau i'ch ymarfer eich hun yn gallu effeithio ar ymarfer pobl eraill.

Mae angen i ymgeiswyr fyfyrio ar yr hyn maent wedi'i ddysgu o'r testun a'r meysydd ffocws sydd wedi'u dewis. Bydd y myfyrio hwn yn dod â'r trafodaethau a'r safbwyntiau amrywiol ynghyd drwy gydol yr ymchwiliad cyfan. Bydd ymgeiswyr yn gallu trafod gwerth neu fanteision yr hyn y maent wedi'i ddysgu wrth ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws o'u dewis. Gall ymgeiswyr drafod yr hyn yr hoffent ei wneud yn seiliedig ar eu casgliadau i'w galluogi i ddeall ymarfer yn well gyda'r nod o wella eu hymarfer eu hunain yn y dyfodol. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyfeirio at unrhyw effaith y bydd newidiadau yn eu cael ar eu hymarfer eu hunain a'r newidiadau i ymarfer pobl eraill

**Tasgau**

**Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu**

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu myfyrio mewn ffordd gadarnhaol ar yr hyn roeddent wedi'i ddysgu yn gyffredinol a chyfathrebu'n effeithiol am werth y wybodaeth roeddent wedi'i hennill. Roedd llawer yn rhoi trafodaeth glir am fanteision eu hymchwil a sut byddai'n gallu gwella eu hymarfer eu hunain yn y dyfodol, gan gefnogi ymarfer pobl eraill hefyd. Ar gyfer y dasg hon, roedd angen i'r ymgeiswyr gysylltu canfyddiadau eu hymchwiliad a'r hyn roeddent wedi'i ddysgu â datblygiad eu hymarfer unigol eu hunain ar gyfer y dyfodol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Ar y cyfan, cwblhawyd y dasg yn dda iawn; llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ennill marciau uchel am drafodaethau trylwyr oedd yn rhoi sylw i bob maes tystiolaeth gofynnol. Roedd yr ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth gryf o'u testun, yn bodloni disgwyliadau'r meini prawf, ac yn rhoi casgliadau clir, cyson a myfyriol. Roedd rhai ymgeiswyr, fodd bynnag, wedi cynnwys ymchwil ychwanegol yn eu casgliadau, sydd ddim yn ofynnol, oherwydd dylai'r adran hon ganolbwyntio'n llwyr ar fyfyrio ar y canfyddiadau a dysgu o'r ymchwiliad yn ei gyfanrwydd.

Ar y cyfan, darparwyd ymatebion cadarnhaol iawn ac roedd y lefel cyrhaeddiad uchel yn adlewyrchu hyn. Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth gryf o'r hyn roeddent wedi'i ddysgu drwy eu hymchwil estynedig ac yn gallu myfyrio ar y sgiliau roeddent wedi'u datblygu yn ystod yr ymchwiliad â ffocws. Roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi rhoi trafodaeth effeithiol am bwysigrwydd defnyddio'r wybodaeth newydd hon a'r ymchwil mewn ymarfer yn y dyfodol, gan gysylltu eu myfyrdodau'n glir â'r meysydd testun o'u dewis a thynnu sylw at yr effaith gadarnhaol bosibl ar eu hymarfer proffesiynol.

### Marcio tasgau

### Sylwadau am ddulliau marcio mewnol

Mae meysydd i'w gwella'n cynnwys rhoi mwy o ffocws i werth a manteision dysgu ar draws yr ymchwiliad cyfan a myfyrio'n eglur ar sut bydd y wybodaeth hon yn cefnogi eu twf proffesiynol a'u hymarfer yn y dyfodol. Er enghraifft, sut gellir cymhwyso'r wybodaeth hon at ymarfer yn y dyfodol, cefnogi eu datblygiad fel gweithwyr proffesiynol, cyfrannu at dîm gwybodus a phrofiadol, a chynorthwyo ag astudiaethau pellach, fel cyrsiau prifysgol mewn addysgu neu ofal plant.

© WJEC CBAC Ltd.2026

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02920 404264
E-bost: GChDDP@cbac.co.uk
Tudalen we'r cymhwyster: Cymwysterau | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda dros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.2026

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.2026